Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Hysbysiad Hwylus

## Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru

Mai 2011

### Sawl Parc Cenedlaethol ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol sydd yng Nghymru?

Mae **tri Pharc Cenedlaethol** a **pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru.**

Y Parciau Cenedlaethol yw:

- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; a
- Pharc Cenedlaethol Eryri.

Eryri oedd y Parc Cenedlaethol cyntaf i gael ei ddynodi yng Nghymru ym 1951, ac fe ddynodwyd Arfordir Penfro ym 1952 a Bannau Brycheiniog ym 1957. Mae'r holl Barciau Cenedlaethol yn ymestyn dros tua **20 y cant o dir Cymru**.[1]

Y pump Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru yw:

- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn;
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd,
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gwyr;
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn; a
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gŵy – mae rhan ohoni'n croesi'r ffîn â Lloegr.

Yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf i gael ei dynodi yng Nghymru oedd **Gŵyr ym 1950**, ac fe ddynodwyd **Llŷn ym 1956**, **Arfordir Ynys Môn ym 1966**, **Dyffryn Gŵy ym 1971** a **Bryniau Clwyd ym 1985**. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar **gynigion i ymestyn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd** tua'r de **i gynnwys rhannau o Ddyffryn Dyfrdwy a Dyffryn Llangollen**. Daeth rhan gyntaf y broses ymgynghori i ben ar 31 Ionawr 2011.

[1] Cymdeithas Parciau Cenedlaethol Cymru, *Parciau Cenedlaethol Cymru*, (gwefan), [fel ar 15 Ebrill 2011]

## Sut a pham y caiff Parciau Cenedlaethol eu dynodi?

Caiff Parciau Cenedlaethol eu dynodi o dan ***Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949*** ("y Ddeddf").[2] Mae Adran 5 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Gyngor Cefn Gwlad Cymru i **ddynodi unrhyw ddarnau eang o dir cefn gwlad y dylid eu dynodi yn Barciau Cenedlaethol oherwydd ansawdd eu harddwch naturiol a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig i ymgymryd â gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored.**

Rhaid i Gyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd ystyried y budd cyhoeddus a fyddai'n deillio o benderfyniad i ddynodi darn o dir yn Barc Cenedlaethol a cheisio cael **cefnogaeth lawn yr holl awdurdodau lleol, cynghorau cymunedol a chyrff cynrychiadol eraill** yn yr ardal.

Ar ôl i Gyngor Cefn Gwlad Cymru benderfynu bod ardal o'r fath yn bodoli ac y dylid ei dynodi, mae'n rhoi'r dystiolaeth i Lywodraeth Cymru a fydd yn penderfynu a ddylid parhau â'r broses ddynodi.

Os bydd **Llywodraeth Cymru yn penderfynu dynodi**, caiff ffiniau drafft eu llunio drwy ymgynghori ag awdurdodau lleol y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt a chynhelir ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Mae **dyletswydd** ar Gyngor Cefn Gwlad Cymru i **gyhoeddi hysbysiad swyddogol** ynghylch Gorchymyn yn nodi'r ffiniau drafft yn y 'London Gazette' a gwneud copïau o'r Gorchymyn a fydd ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt.

Os caiff unrhyw **wrthwynebiad** ei godi yn ystod y broses ymgynghori, **byddai hyn, yn y rhan fwyaf o achosion, yn arwain at Ymchwiliad Cyhoeddus**. Yna, bydd unrhyw sylwadau am yr ymchwiliad yn cael eu hystyried, neu chanlyniadau sy'n deillio ohono, cyn i Gyngor Cefn Gwlad Cymru benderfynu symud ymlaen i'r cyfnod terfynol, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

Os gwneir penderfyniad i barhau â'r broses ddynodi, caiff Gorchymyn Dynodi ei anfon i Lywodraeth Cymru gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Yna, byddai gofyn ar Lywodraeth Cymru i **gadarnhau'r Gorchymyn, ei gadarnhau gydag addasiadau neu ei wrthod.**

Y **parc cenedlaethol diweddaf i gael ei ddynodi** ym Mhrydain oedd parc cenedlaethol **South Downs National Park** sy'n cynnwys rhannau o Hampshire a gorllewin a dwyrain Sussex.[3] Cymerodd y broses o ddynodi'r Parc Cenedlaethol **dros ddegawd i'w gyflawni**. Fe'i **dynodwyd ar 31 Mawrth 2010.** Fodd bynnag, dechreuodd y broses ymgynghori ar sefydlu'r Parc **ym 1999.**

### Amrywio ffiniau Parc Cenedlaethol

Mae **Adran 45 o *Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981***[4] yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru **amrywio'r gorchymynion sy'n dynodi Parciau Cenedlaethol**.[5] Mae ystyried cynigion ar gyfer amrywio ffiniau Parc Cenedlaethol yn un o swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gyflawni unrhyw waith asesu mewn perthynas

[2] ***National Parks and Countryside Act 1949*** (c.97)
[3] Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs, ***South Downs National Park*** (gwefan) [fel ar 15 Ebrill 2011]
[4] ***Wildlife and Countryside Act 1981***(c.69) gwefan [fel ar 15 Ebrill 2011]
[5] **Deddfwriaeth Cymru Ar-lein** gwefan [fel ar 11 Ebrill 2011]

ag amrywio ffin ac ymgynghori â'r holl gyrff perthnasol ar unrhyw gynigion. Yna, gall y Cyngor wneud argymhellion i Weinidogion Cymru a rhaid iddynt gadarnhau unrhyw gynigion a gaiff eu gwneud.

## Beth yw dylestwyddau Parc Cenedlaethol?

Caiff yr holl Barciau Cenedlaethol yng Nghymru eu rheoli gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Yng Nghymru, o dan Adran Section 5(1) o'r Ddeddf, mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol **ddwy ddyletswydd statudol**, sef:

- **diogelu a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal; a**
- **hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal.**[6]

At hynny, mae ***Deddf yr Amgylchedd 1995*** yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar drywydd eu dau ddiben statudol i wneud yr hyn a ganlyn:

> Seek to foster the economic and social well-being of local communities within National Parks, but without incurring significant expenditure in doing so, and shall for that purpose co-operate with local authorities and public bodies whose functions include the promotion of economic or social development within the area of a National Park.[7]

Os bydd gwrthdaro rhwng y **ddau ddiben statudol** neu rhwng diben statudol a'r ddyletswydd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau, mae **Adran 11(A) o'r Ddeddf** yn datgan o ran yr Awdurdod Parc Cenedlaethol:

> [It] shall attach greater weight to the purpose of conserving and enhancing the natural beauty, wildlife and cultural heritage of the area comprised in the National Park.[8]

## Sut y caiff Parciau Cenedlaethol yng Nghymru eu rheoli?

Rheolir yr holl Barciau Cenedlaethol yng Nghymru gan **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**. Mae'r awdurdodau hynny'n cynnwys **pwyllgor o Aelodau,** sy'n gwneud penderfyniadau **ar flaenoriaethau a pholisïau** ar gyfer y Parc, a Phrif Weithredwr a **staff, sy'n gyfrifol am reoli'r Parc o ddydd i ddydd** a gweithredu'r penderfyniadau a gaiff eu gwneud gan yr Aelodau.

### Aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Mae **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** yn cynnwys **dau wahanol fath o Aelodau**, sef y rhai a **benodir o awdurdodau lleol** a'r rhai a **benodir gan Lywodraeth Cymru**. Bydd y rhan fwyaf o aelodau'r Awdurdod Parciau yn aelodau etholedig o awdurdodau lleol sydd o fewn ffiniau'r Parc. Caiff tua **traean o Aelodau Awdurdod Parciau** eu penodi gan y Gweinidog perthnasol o Gymru yn dilyn proses benodi gyhoeddus.[9]

Fel arfer, caiff Aelodau o awdurdodau lleol eu penodi am gyfnod o bedair blynedd neu hyd

---

[6] ***National Parks and Access to the Countryside Act 1949*** (c.97)
[7] ***Environment Act 1995*** (c.25)
[8] ibid.
[9] Cymdeithas Parciau Cenedlaethol Cymru, ***Parciau Cenedlaethol Cymru,*** (gwefan), [fel ar 15 Ebrill 2011]

nes y cynhelir yr etholiad llywodraeth leol nesaf.

Caiff tua thraean o Aelodau Awdurdod Parc eu penodi gan Lywodraeth Cymru i gynrychioli'r budd cenedlaethol a darparu sgiliau arbenigol ychwanegol sy'n berthnasol i waith yr Awdurdod. Caiff yr Aelodau hyn eu penodi drwy broses penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fel arfer gallant wasanaethu am dri thymor o dair blynedd, ar y mwyaf.

### Cyfrifoldeb Aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Mae'n ofynnol bod pob Aelod yn **gweithredu er lles y Parc Cenedlaethol** ac i weithio ar y **ddau ddiben statudol** y dynodwyd y Parc ar eu cyfer, gan ystyried y budd lleol a cenedlaethol. Mae hefyd yn ofynnol bod Aelodau'r Parc yn **cadw at God Ymddygiad.**

## Pa rôl sydd gan Llywodraeth Cymru o ran rheoli'r Parciau Cenedlaethol?

Yn ogystal ag enwebu rhai o'r Aelodau, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian grant i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol. Rhoddodd **Lywodraeth Cymru £11.2 miliwn o arian** i'r tri Pharc Cenedlaethol ar gyfer **2010-11.**[10] Mae Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr grant at bob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau y mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r Parc ymgymryd ag hwy yn ystod y flwyddyn ariannol. Gellir gweld **llythyr grantiau 2010-11** ar **wefan Llywodraeth Cymru**.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Ddatganiad Polisi Parciau Cenedlaethol yn 2007** sy'n nodi'r gweithredoedd polisi tymor canolig y mae'r Llywodraeth am i'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ymgymryd â hwy.[11] Disgwylir i'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gyfeirio at y datganiad polisi hwn wrth arfer eu swyddogaethau.

## Pa gymhwysedd cyfreithiol sydd gan y Cynulliad a'r Llywodraeth dros Barciau Cenedlaethol?

O dan y Ddeddf, mae gan Lywodraeth Cymru **nifer o bwerau mewn perthynas â Pharciau Cenedlaethol** gan gynnwys:

- Y pŵer i gadarnhau dynodiadau ar gyfer Parciau Cenedlaethol;
- Y pŵer i roi cyfarwyddiadau i Gyngor Cefn Gwlad Cymru o ran trefn ac amseru dynodiadau ar gyfer Parciau Cenedlaethol; a
- Y pŵer, â chaniatâd y Trysorlys, i gaffael tir mewn Parc Cenedlaethol drwy ei brynu, ei gyfnewid neu ei rhentu.[12]

O dan ***Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*** mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i **amrywio gorchymyn yn dynodi Parc Cenedlaethol**.

[10] Llywodraeth Cynulliad Cymru, ***Parciau Cenedlaethol yng Nhgymru: Llythyron Grant Strategol*** (gwefan), [fel ar 15 Ebrill 2011]
[11] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Eryri, ***Datganiad Polisi ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru,*** Mawrth 2007 [fel ar 15 Ebrill 2011]
[12] ***National Parks and Access to the Countryside Act 1949*** (c.97)

O dan ***Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009,*** ystyrir Awdurdod Parc Cenedlaethol i fod yn 'Awdurdod Gwella Cymru' at ddibenion y Mesur ac mae'n ofynnol arno i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau. O dan amgylchiadau penodol a nodir yn Adran 29 o'r Mesur, pan fo awdurdod lleol yn methu â gwella er gwaethaf y ffaith ei fod wedi cael cymorth gan Weinidogion Cymru, gall y Gweinidogion gyfarwyddo Awdurdod Parc Cenedlaethol i:

- baratoi neu ddiwygio cynllun gwella;
- cynnal adolygiad o'i swyddogaethau penodedig;
- ymrwymo i drefniadau cydlafurio penodedig gydag awdurdod gwella arall; a
- gosod amcanion gwella penodedig.

O dan y Mesur, gall Gweinidogion Cymru, o dan amgylchiadau penodol, ymgymryd â'r gwaith o arfer rhai o swyddogaethau'r awdurdod gwella eu hunain neu enwebu person i ymgymryd â'r gwaith hwnnw cyhyd â bo Gweinidogion Cymru yn credu bod hynny'n briodol.[13]

Ar hyn o bryd, nid oes gan Weinidogion Cymru'r pŵer i ddiddymu Parc Cenedlaethol.[14]

Yn dilyn canlyniad y refferendwm ar bwerau deddfu yng Nghymru ar 3 Mawrth 2011, bydd gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol dros ddynodi a rheoleiddio Parciau Cenedlaethol o 5 Mai 2011 ymlaen.

## Sut a pham y caiff Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol eu dynodi?

Yn wreiddiol, cafwyd y pŵer i ddynodi Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn ***Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949*** **ond fe'i ddiwygiwyd gan** ***Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.***[15] O dan Adran 82 o *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000* ("y Ddeddf"), gall Cyngor Cefn Gwlad Cymru ddynodi unrhyw ardal yng Nghymru (nad yw eisoes yn Barc Cenedlaethol) yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol os yw'r ardal more eithafol o brydferth yn naturiol dylid ei gadw a'i wella.

Cyn dynodi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, **rhaid i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ymgynghori â phob awdurdod lleol y mae ei ffiniau yn dod o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithafol arfaethedig** a chyhoeddi hysbysiad yn y 'London Gazette' ac mewn papur lleol ym mhob un o'r awdurdodau lleol y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt.

Ar ôl cynnal yr ymgynghoriad, rhaid i Gyngor Cefn Gwlad Cymru anfon y **Gorchymyn at Lywodraeth Cymru,** ynghyd ag unrhyw sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad. Yna, gall Llywodraeth Cymru gadarnhau'r dynodiad, ei gadarnhau gyda newidiadau, neu ei wrthod. Os yw Llywodraeth Cymru'n cadarnhau'r dynodiad gyda newidiadau neu'n ei wrthod, yn gyntaf rhaid iddi **ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a phob**

[13] *Local Government (Wales) Measure 2009*
[14] *Wildlife and Countryside Act 1981* (c.69)
[15] *Countryside and Rights of Way Act 2000* (c.37)

**awdurdod lleol y mae ei ffiniau yn dod o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithafol arfaethedig.**

## Sut y caiff Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol eu rheoli yng Nghymru?

Caiff pob Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru ei **reoli gan awdurdodau lleol** y mae eu swyddogion yn goruwchwilio'r gwaith o reoli gweithgareddau yn yr ardaloedd hynny. Ariennir nifer o swyddi swyddogion Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gan gyfuniad o gymorth gan awdurdodau lleol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.[16] Caiff **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gŵy** hefyd gymorth gan staff o gynghorau yn Lloegr y mae eu ffiniau yn yr ardal honno.

Caiff y gwaith o reoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol **ei gefnogi hefyd gan bwyllgorau o randdeiliaid allweddol** fel tirfeddianwyr landowners, asiantaethau statudol, cynghorau cymunedol a rhai sydd â diddordeb mewn cadwraeth a hamdden. Gelwir y pwyllgorau hynny yn **gydbwyllgorau ymgynghorol ym Mryniau Clwyd, Ynys Môn, Llŷn, Dyffryn Gŵy ac yn fforwm cefn gwlad yn Gŵyr.**

## Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru?

Mae ***Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*** yn gosod **dyletswydd ar awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol** i ddatblygu **cynllun rheoli ar gyfer yr ardaloedd hynny,** drwy ymgynghori â'r pwyllgorau ymgynghorol, sy'n nodi polisïau'r awdurdod lleol ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a sut y dylid eu cyflawni. Mae'n ofynnol bod y cynlluniau rheoli yn mynd i'r afael, nid yn unig blaenoriaethau amgylcheddol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, ond hefyd materion cymdeithasol ac economaidd yn yr ardal.[17]

Mae'r Ddeddf yn nodi y dylid adolygu cynlluniau rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol **nid yn llai aml nag unwaith bob pum mlynedd**. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn darparu arian i awdurdodau lleol reoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ar sail eu cynlluniau rheoli ac mae'n ofynnol bod Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn **rhoi gwybod i Gyngor Cefn Gwlad Cymru os ydynt yn bwriadu cyhoeddi cynllun rheoli.**

Hefyd, mae'r Ddeddf yn gosod **dyletswydd** ar bob corff cyhoeddus, gan gynnwys cwmnïau gwasanaeth preifat, **i ystyried dibenion gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardaloedd hyn**. O dan y Ddeddf, gosodir dyletswydd arbennig ar awdurdodau cynllunio lleol y mae gofyn iddynt wneud yr hyn a ganlyn yn benodol:

---

[16] Y Gymdeithas Genedalethol ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, ***Cyflwyniad i Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol***, (gwefan), [fel ar 15 Ebrill 2011]
[17] ibid.

> ...take all such action as appears to them expedient for the accomplishment of the purpose of conserving and enhancing the natural beauty of the area of outstanding natural beauty or so much of it as is included in their area.[18]

Mae'n bwysig nodi bod gan **ddynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yr un statws o ran cynllunio â Pharc Cenedlaethol** ond tra bod Parc Cenedlaethol yn cael ymgymryd â'i swyddogaethau cynllunio ei hun, caiff hyn ei wneud gan yr awdurdodau cynllunio lleol perthnasol yn achos Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

## Pa gymhwysedd deddfwriaethol sydd gan y Cynulliad a'r Llywodraeth dros Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol?

O dan ***Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*** mae gan Lywodraeth Cymru **nifer o bwerau dros Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol** a restrir isod:

- y pwerau i gadarnhau Gorchymyn dynodi ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a gynigiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, neu ei wrthod;
- y pŵer i gadarnhau ag addasiad Orchymyn ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru;
- y pŵer i amrywio Gorchymyn sy'n dynodi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol – hynny yw, pŵer i amrywio ffiniau Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ;
- y pŵer i sefydlu corff cadwraeth i reoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol - hynny yw, y pŵer i sefydlu corff annibynnol newydd sydd ar wahân wrth unrhyw awdurdod lleol i reoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. I wneud gwneud hyn, rhaid ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon bod y rhan fwynaf o awdurdodau lleol yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cydsynio i sefydlu'r fath gorff. Byddai angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno Gorchymyn i sefydlu corff cadwraeth;
- y pŵer i roi grantiau i unrhyw gyrff cadwraeth a sefydlir.[19]

Er bod gan Lywodraeth Cymru y **pŵer i amrywio Gorchymyn yn dynodi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, nid oes ganddi'r pŵer i ddiddymu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar hyn o bryd.**

Yn dilyn canlyniad y refferendwm ar bwerau deddfu yng Nghymru ar 3 Mawrth 2011, bydd gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol dros ddynodi a rheoleiddio Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol o 5 Mai 2011 ymlaen.

[18] *Countryside and Rights of Way Act 2000* (c.37)
[19] ibid.

## Gwybodaeth bellach

I gael mwy o wybodaeth am wahanol agweddau ar Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, cysylltwch â **Nia Seaton** (**nia.seaton@cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

I gael mwy o wybodaeth am y pynciau a ganlyn, cliciwch ar y lincs.

- Cymdeithas Parciau Cenedlaethol Cymru
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gŵy

Ewch yma i weld ein rhestr lawn o hysbysiadau hwylus.

**RS 11/0409 Nia Seaton**

**Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r**
**Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i Research.Service@wales.gov.uk**